| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **DYDDIAD** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi am drefniadau diogelu'r Adran Addysg |
| **AWDUR** | Llion Williams |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Beca Brown |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1. Cyflwynir yr adroddiad yma mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn gwybodaeth am drefniadau diogelu'r Adran Addysg.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

2.1. Bwriad yr adroddiad yw cyflwyno gwybodaeth ar drefniadau diogelu mewn ysgolion, ynghyd â'r arweiniad a'r gefnogaeth a roddir yn y maes hwn gan yr Adran Addysg er mwyn rhoi sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi o briodoldeb y trefniadau.

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

3.1. Mewn partneriaeth â holl adrannau'r Cyngor mae'r Adran Addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau am reoli diogelu ac amddiffyn plant ar draws y gwasanaeth addysg.

3.2. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu Corfforaethol yn cael eu cyd gynllunio eu monitro a'u harfarnu'n rheolaidd gyda mewnbwn rheolaidd yr Adran Addysg.

3.3. Mae Diogelu yn eitem reolaidd ar raglen y Tîm Rheoli Addysg gan roi llwyfan rheolaidd i ystyried materion strategol yn y maes.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

4.1. Trefniadau Diogelu'r Adran Addysg:

4.2. <u>**Polisïau:**</u>

4.3. Mae'r Adran Addysg yn darparu ysgolion gyda polisïau safonol sydd yn adlewyrchu'r model yng Nghylchlythyr Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020.

4.4. Mae Polisi Diogelu cynhwysfawr, sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol yn cael ei rannu ar gychwyn y flwyddyn addysgol gyda'n darparwyr. Mae'r polisi'n amlygu'n glir gyfrifoldebau, diffiniadau o gamdriniaeth a chysylltiadau'r Awdurdod yn y maes. Gweler **Atodiad 1**.

4.5. Mae’r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn cadw’r polisi’n gyfredol gan ystyried arweiniad cenedlaethol neu arweiniad y Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru lle’n briodol, cyn ei adolygu’n flynyddol.

4.6. Yn ychwanegol i’r Polisi Diogelu darperir ystod lawn o bolisïau amrywiol eraill sydd yn ymwneud â’r maes diogelu (gweler y rhestr gyflawn yn **Atodiad 2** - Adroddiad Diogelu Adran Addysg 2024).

4.7. Sicrheir bod y polisïau wedi eu mabwysiadu drwy’r Adroddiad Diogelu Blynyddol i’r Corff Llywodraethu ynghyd â’r ymweliadau gwirio ansawdd gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg.

4.8. Caiff y polisïau eu diweddaru’n flynyddol gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg. Cyfrifoldeb yr ysgolion ydi personoli’r polisïau safonol gyda’r manylion sy’n benodol ar eu cyfer.

4.9. Mae’r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn sicrhau mewnbwn yr Adran Addysg i faterion strategol. Mae’n cynrychioli’r Adran a chynnig arweiniad mewn cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol, ar lefel awdurdod ac mewn is-grwpiau perthnasol. Mae’n cyflwyno adborth rheolaidd o’r cyfarfodydd i sylw’r Pennaeth Addysg, ac yn cynrychioli a chyfrannu’n llawn mewn adolygiadau ymarfer plant yn rhanbarthol yn ôl y galw.

4.10. Mae’r Adran Addysg yn cydweithio’n effeithiol â’r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Mae’r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn gweithio’n agos gyda’r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr adran yn diogelu plant sydd allan o addysg prif lif yn unol â’r canllawiau drwy;

- Ddiogelu a hybu lles plant sydd heb gael lle mewn ysgol, neu sydd wedi cael eu gwahardd o’r ysgol, gan gynnwys rhai sy’n cael eu dysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion neu gan y gwasanaeth tiwtoriaid cartref.
- O ran plant sy’n cael eu addysgu gartref gan rieni neu ofalwyr, mae staff y gwasanaeth yn meithrin perthynas effeithiol gyda’r sawl sy’n addysgu gartref i ddiogelu budd addysgol a lles y plant a’r bobl ifanc.

4.11. Mae’r awdurdod lleol yn darparu arweiniad clir i bob un o’i ddarparwyr gwasanaethau addysg, gan gynnwys ein hysgolion, ynglŷn â pholisïau amddiffyn plant ac yn gwneud hynny’n effeithiol.

4.12. Mae’r awdurdod yn sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant a phobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, trais yn y cartref ac ecsploetiaeth.

4.13. Mae’r awdurdod yn cyfeirio ac yn adrodd pob digwyddiad o gam-drin proffesiynol honedig i gyfarfod strategaeth broffesiynol yn brydlon a chywir. Mae pob achos yn derbyn sylw cychwynnol gan Bennaeth Gwasanaethau Plant ac yna fe ddirprwyir cyfrifoldebau gweithredol yn unol â threfn gytunedig. Mae’r drefn yn glir a chywir ac mae’r gwasanaethau’n cydweithio’n effeithiol i sicrhau hygrededd y broses.

5. **<u>Recriwtio diogel:</u>**

5.1. Mae trefn benodi'r awdurdod wedi ei selio ar hanfodion recriwtio diogel ac wedi'u diffinio'n glir yn ein polisi recriwtio diogel. Mae pob penodiad yn cael ei wneud ar ôl derbyn tystiolaeth gan gyflogwyr blaenorol ar ffurf geirdaon, ac ar gyfer swyddi lle mae'n rhaid derbyn dadleniad, yna ni chaiff y gweithiwr gychwyn mewn swydd hyd nes y bydd DBS mewn lle.

5.2. Mae rhestr gyflawn o weithlu gwasanaethau addysg sydd angen gwiriad ar gael yn ganolog. Mae canrannau DBS pob adran yn cael eu trafod yn y Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion gan roi cyfle i ni fod yn adnabod unrhyw rwystrau ar lefel gorfforaethol.

5.3. Mae bas data addas o'r gwiriadau angenrheidiol ar gyfer cyrff llywodraethol pob ysgol. Yng Ngwynedd mae'n ofynnol i bob aelod o'r corff gael gwiriad DBS.

5.4. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd am swydd gyda phlant neu oedolion yng Ngwynedd ateb cwestiwn diogelu safonol. Mae'r cwestiwn yn dyrchafu statws diogelu ac yn sicrhau bod pawb sydd yn cael eu penodi i weithio yma â lefel briodol o ddealltwriaeth yn y maes.

5.5. 99.93% yw cyfraddau cyfredol DBS yr Adran Addysg, gyda tharged yr adran yn 100%. Mae prosesau trylwyr mewn lle i weithio tuag at hyn a sicrhau bod pawb yn adnewyddu eu DBS yn amserol. Mae'r 0.07% sydd heb wiriad DBS cyfredol unai'n o broses o adnewyddu, i ffwrdd o'r gwaith gyda salwch tymor hir, neu wedi eu hatal o'r gwaith.

5.6. Mae'r perfformiad ar wiriadau DBS yn rhan o'r broses Herio Perfformiad yn ogystal â chael ei adrodd i Banel Strategol a Gweithredol Diogelu y Cyngor.

6. **<u>Hyfforddiant ac arweiniad:</u>**

6.1. Mae disgwyliadau'r awdurdod o'r darparwyr gwasanaethau addysg yn cael ei ddal yn yr ystod o hyfforddiant a ddarperir. Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn sicrhau bod staff yr Awdurdod sy'n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant i'w harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol ac yn gallu cynnal hyfforddiant addas (lefel 1) i weddill staff yr ysgol. Yn y flwyddyn academaidd yma yr oedd 96% o ysgolion Gwynedd wedi darparu hyfforddiant lefel 1 yn mis Medi, gyda dwy ysgol wedi ei gynnal cyn diwedd tymor yr Hydref.

6.2. Mae'r rhaglen hyfforddi wedi ei newid yn Medi 2023 o gylch tair blynedd i ysgolion i gylch dwy flynedd, ac mae hyn yn cyd-fynd gyda'r arferion gorau yn y maes.

6.3. Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg wedi cwblhau hyfforddiant '*Hyfforddi hyfforddwyr NSPCC*' ac yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant i hyfforddwyr ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Yn ychwanegol i hyfforddi Personau Diogelu dynodedig (lefel 2) a Llywodraethwyr mae hi'n darparu hyfforddiant safonol i ystod eang o wasanaethau y tu allan i ysgolion gan gynnwys;

- Addysg y blynyddoedd cynnar
- Gwasanaeth Cerdd
- Gyrwyr tacsi
- Hebryngwyr

6.4. Cynhaliwyd Arolwg Blynyddol Diogelu gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ym mis Mawrth 2024. Nodwyd fod:

- **92% (↑5%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **84% (↑14%)**o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **95% ( ↓2%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Hydref;
- **100% (aros yn 100%)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

6.5. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24 mae 12 sesiwn hyfforddiant lefel 2, ynghyd â 9 sesiwn hyfforddiant sylfaenol wedi eu cynnig i staff ysgolion Gwynedd. Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i Lywodraethwyr, athrawon llanw, staff blynyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff ADY.

7. **MONITRO:**

7.1. Mae'r Adran Addysg yn sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno Adroddiadau Diogelu Blynyddol i'r Corff Llywodraethu ac mae cynnwys yr adroddiadau'n cael eu gwirio drwy ymweliadau gwirio ansawdd.

7.2. Mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg yn cynnal ymweliadau monitro ansawdd er mwyn gwirio'r hyn adroddwyd arno yn yr Adroddiadau Diogelu Blynyddol i'r Corff Llywodraethu gan gynnwys eu polisïau a gweithdrefnau diogelu dydd i ddydd. Darperir adroddiad wedi'r ymweliadau yma gydag argymhellion yn sail i gynlluniau gwella'r ysgol yn y maes.

7.3. Ers Ebrill 2023 mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg wedi mynychu 45 o ysgolion i wirio trefniadau, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae pob ysgol yn derbyn ymweliad gwirio ansawdd mewn cylch dwy flynedd. Mae pob ysgol yr ymwelwyd â hwy yn cydymffurfio gyda trefniadau diogelu priodol, mae'r farn yma wedi ei gadarnhau gan ymweliadau Estyn. Mewn nifer bychan o ysgolion awgrymwyd mân addasiadau er mwyn gwella trefniadau, ond nid oedd yr un ysgol angen ymweliad dilynol

**ARGYMHELLION:**

Gofynnir i'r aelodau dderbyn cynnwys yr adroddiad.